



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB AC OEDRAN

Cyflwyniad

Dydy cydraddoldeb i bobl hŷn ddim yn bwnc lleiafrifol - mae'n bwnc sy'n effeithio ar bawb. Mae gwneud y byd yn lle tecach i bobl hŷn nawr yn fuddsoddiad i ddyfodol pob un ohonom. Mae stereoteipiau negyddol o fywyd yn ddiweddarach mewn oes yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn trin pobl hŷn, sy'n aml yn cael eu darlunio fel torf fregus, anghenus sy'n gwneud galwadau gormodol ac anghynialadwy ar ein systemau iechyd a gofal. Yn aml dydy cyfraniad economaidd pobl hŷn i'r gymdeithas ddim yn cael ei gydnabod, yn enwedig o ran darparu gofal am ddim. Rhaid inni drawsnewid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn siarad am bobl hŷn a'u hanghenion .

Y materion

Mae dros hanner miliwn o bobl yng Nghymru yn 65 oed a throsodd, sef 18% o'r boblogaeth ac erbyn hyn mae mwy o bobl o'r oedran yma nag sydd o blant dan 16 oed. Rhagwelir y bydd y nifer o bobl 65 oed yn codi i un mewn pedwar (dros filiwn) erbyn 2030. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys Oedran fel 'nodwedd warchoddedig' ac mae'r ddeddf oedd yn galluogi cyflogwyr i orfodi pobl i ymddeol yn 65 oed wedi'i diddymu. Ond, mae pobl hŷn yn parhau i ddioddef effeithiau stereoteipio a rhagfarn mewn sawl maes yn eu bywydau.

Mae llawer o bobl hŷn yn sôn am anawsterau wrth gael yswiriant teithio neu yswiriant cerbyd ac yn gweld cynnydd mawr mewn premiymau nad ydyn nhw fel pe baen nhw'n gysylltiedig â'u hanes o yrru neu eu hanes meddygol. Mae rhai pobl hŷn yn cael profiadau negyddol wrth geisio prynu offer cyfrifiadurol neu ffonau symudol gyda'r gwerthwyr yn dweud wrthyn nhw am ddod yn ôl gyda rhywun iau sy'n deall y dechnoleg. Mae stereoteipiau negyddol o fywyd yn ddiweddarach mewn oes yn gallu cael

effaith sylweddol ar bobl hŷn mewn cyflogaeth. Mae llawer o bobl yn cael trafferth i ddarganfod cyfleoedd hyfforddi neu ddyrchafiad wrth iddynt heneiddio a gall fod yn neilltuol o anodd darganfod swydd newydd unwaith y byddwch yn cyrraedd hanner cant. Yn hytrach na manteisio ar y cyfoeth enfawr o wybodaeth a phrofiad sydd gan weithwyr hŷn i'w cynnig, maen nhw'n gynyddol yn cael eu disgrifio fel 'blocwyr swyddi'. Yn aml hefyd caiff pobl hŷn eu disgrifio fel 'blocwyr gwelyau' yn y gwasanaeth iechyd. Er bod y sefyllfa y mae hyn yn cyfeirio ati mewn gwirionedd yn disgrifio methiant ar ran darparwyr iechyd a gofal i sicrhau nad ydy unigolyn yn aros yn yr ysbyty yn hirach nag y bydd ei angen, mae'n well gan y gymdeithas feio pobl hŷn am y broblem.

Gall pobl hŷn wynebu problemau gyda gwasanaethau iechyd. Dydy menywod dros 70 oed ddim yn cael eu gwahodd yn awtomatig i gael eu sgrinio ar gyfer canser y fron, er bod y risg o ganser yn cynyddu gydag oedran. Yn aml dydy anhwylderau iechyd meddwl ddim yn cael eu diagnosio neu maen nhw'n cael eu trin fel rhywbeth sy'n anorfod yn ddiweddarach mewn oes ac fe fydd rhai unigolion y mae eu hanhwylder wedi ei reoli'n effeithiol am flynyddoedd lawer yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau 'henoed' dim ond am eu bod nhw wedi cyrraedd oedran neilltuol.

Er bod troseddau fel byrgleriaeth trwy dynnu sylw a sgamiau wedi'u targedu'n aml at bobl hŷn, am amrywiol resymau dydy llawer ohonyn nhw ddim eisiau trafferthu'r heddlu. Gall effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddau casineb fod yn llawer mwy ar bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae'r ffaith nad ydy pobl hŷn yn cael eu hystyried fel tystion dibynadwy yn y llys yn golygu weithiau bod arferion gwahaniaethol yn effeithio'n negyddol ar gyfle pobl hŷn i gael cyfiawnder.

Casgliad

Yn aml, mae'r hyn a ddisgrifir fel lefelau gwael o wasanaethau, yn enwedig mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, mewn gwirionedd yn faterion cydraddoldeb neu'n achosion lle mae hawliau dynol yn cael eu torri. Rhaid inni wneud gwell defnydd o'r gyfraith ar gydraddoldeb a hawliau dynol a'r polisïau sydd ar gael inni er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com